

# Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl: Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Cyflawni

## 01 Rhagfyr 2021 – 31 Mawrth 2022

[Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl: cynllun cyflawni 2021 | LLYW.CYMRU](#)

### Blaenoriaeth 1: Adnabod a gwerthfawrogi gofalwyr di-dâl

Rhaid gwerthfawrogi a chefnogi pob gofalwr di-dâl i wneud dewis gwybodus am y gofal y maent yn ei ddarparu ac i gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt wrth ofalu a phan ddaw'r rôl ofalu i ben.

Thema blaenoriaeth 1: Gwerthfawrogi gofalwyr di-dâl		Monitro		
Ymrwymiadau'r Strategaeth				
Mae'r ymrwymiadau a wnaethom yn y Strategaeth o dan y thema hon yn cynnwys annog gofalwyr di-dâl i hunanadnabod a chodi ymwybyddiaeth o werth gofalwyr di-dâl drwy:				
<ul style="list-style-type: none"><li>Gefnogi digwyddiadau blynyddol sy'n dathlu hawliau gofalwyr.</li><li>Defnyddio negeseuon Gweinidogol a sianeli'r cyfryngau i sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael eu gwerthfawrogi a'u cydnabod.</li><li>Sicrhau bod yr holl negeseuon yn hygyrch i ofalwyr ifanc ac i ofalwyr sy'n oedolion ifanc.</li></ul>				
Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Sector/sefydliad	Cyfnod	Gweithgarwch a gwblhawyd a champau nesaf	
1.1	Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo negeseuon cadarnhaol am werth gofalwyr di-dâl i economi, cymunedau a	Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus, y trydydd sector.	Parhaus, blynyddol. Er enghraifft:	Ymgyrch wybodaeth genedlaethol am hawliau gofalwyr hydref 2021 – gwanwyn 2022

	<p>system iechyd a gofal cymdeithasol Cymru. Bydd negeseuon o leiaf yn cysylltu â digwyddiadau blynyddol fel bo hawliau gofalwyr yn cael eu hyrwyddo fesul cam.</p>	<p>Rhanddeiliaid allweddol: Trafodaeth Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr / cysylltiadau penodol â sefydliadau gofalwyr cenedlaethol Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru / Fforwm Cymru Gyfan / Gofalwyr Cymru (aelodau o Gynghair Cynhalwyr Cymru a rhwydweithiau eraill)</p>	<p>Diwrnod Gweithredu Gofalwyr Ifanc (Mawrth 2022)</p> <p>Wythnos Gofalwyr (Mehfin 2022),</p> <p>Diwrnod Hawliau Gofalwyr (Tachwedd 2022)</p>	<p>Siarter ar gyfer Gofalwyr yng Nghymru a lansiwyd ar 27 Medi 2022. Cafodd y siarter ei lunio ar y cyd â gofalwyr di-dâl ac aelodau o Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr.</p> <p><a href="#">Siarter ar gyfer gofalwyr di-dâl   LLYW.CYMRU</a></p> <p>Uwchgynhadledd Gofalwyr Genedlaethol Mawrth 2022 – cynhaliwyd sesiynau gwybodaeth ac adborth, wedi'u trefnu gan Gofalwyr Cymru, i ofalwyr di-dâl dros bum diwrnod ym mis Mawrth 2022. Bu'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru yn bresennol. Aeth Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru i seminar dilynol wedyn hefyd.</p> <p>Diwrnod Hawliau Gofalwyr 24 Tachwedd 2022 (Thema: costau gofalu)</p> <p>Aeth y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i ddigwyddiad codi ymwybyddiaeth hefyd er mwyn helpu i hyrwyddo'r ap Jointly. Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Ddatganiad Ysgrifenedig a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn datlunio pob gofalwr di-dâl.</p> <p><a href="#">Datganiad Ysgrifenedig: Diwrnod Hawliau Gofalwyr (24 Tachwedd 2022)   LLYW.CYMRU</a></p> <p>Yn y trydydd sector, mae Carers UK yn arwain gweithgareddau Diwrnod Hawliau Gofalwyr ac Wythnos Gofalwyr ar lefel y DU.</p>
1.2	<p>Hyrwyddo cyfleoedd i Weinidogion gyfarfod a chlywed yn uniongyrchol gan ofalwyr di-dâl o bob oed.</p>	<p>Llywodraeth Cymru.</p>	<p>Yn syth a pharhaus.</p>	<p><b>Fframwaith Ymgysylltu â Gofalwyr (Oedolion)</b></p> <p>Trefnodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ddau ddigwyddiad i ofalwyr di-dâl sy'n oedolion fel rhan o Wythnos Gofalwyr ym mis Mehefin 2022. Lansiwyd y digwyddiad cyntaf gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.</p> <p><b>GOFALWYR IFANC</b></p> <p><b>Diwrnod Gweithredu Gofalwyr Ifanc Mai 2022</b> – Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a grŵp o ofalwyr ifanc sy'n byw yn Sir Benfro</p>

				<p>14 Gorffennaf – Cynhaliwyd cyfarfod cyd-weinidogol rhwng gofalwyr ifanc o bob cwr o Gymru a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol</p> <p><b>Gŵyl Gofalwyr Ifanc 2022</b></p> <p>Cynhaliwyd yr Ŵyl Gofalwyr Ifanc genedlaethol gyntaf yng nghanolbarth Cymru rhwng 23 a 25 Awst 2022. Bu'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn bresennol ar 24 Awst, gan gyfarfod â gofalwyr ifanc. Bu 300 o ofalwyr ifanc, yn ogystal â gofalwyr sy'n oedolion ifanc a gweithwyr prosiect, yn bresennol yn ystod y tri diwrnod.</p> <p><b>Gweithgareddau eraill</b> – Mae'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a swyddogion Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu â sectorau allweddol ac i gyfnewid cyfleoedd i Weinidogion Cymru gymryd rhan mewn gweithgareddau drwy gysylltiadau aelodau o Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar gyfer gofalwyr. Ymhlith y rhain y mae awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, byrddau partneriaeth rhanbarthol ac eraill gan gynnwys Comisiynwyr.</p>
1.3	Gweithio gyda gofalwyr di-dâl sydd ag amrywiaeth eang o brofiadau byw, a sefydliadau cynrychioliadol i sicrhau bod negeseuon yn hygyrch i ystod eang o bobl. Er enghraifft yn Gymraeg, mewn ieithoedd lleiafrifoedd ethnig, yn laith Arwyddion Prydain, fel copi sain neu braille, hawdd ei ddarllen, ac mewn fformatau sy'n hygyrch i blant a phobl ifanc.	Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus, y trydydd sector.	Yn syth	<p>Mae'r gweithgarwch hwn yn un o elfennau allweddol dull y fframwaith newydd ar gyfer ymgysylltu â gofalwyr, gydag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn ymgysylltu â gwahanol garfannau o ofalwyr. Ymhlith enghreifftiau o weithgareddau sy'n mynd rhagddynt y mae ymchwil gyda chymunedau ethnig lleiafrifol a chymryd rhan yn nigwyddiad Wythnos Gofalwyr a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Tsieineaidd leol. Hefyd, cafodd yr ymgyrch wybodaeth am y taliad £500 i ofalwyr ei hehangu i gynnwys ieithoedd lleiafrifoedd ethnig allweddol er mwyn sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn manteisio ar y taliad.</p> <p>Bydd swyddogion yn ystyried unrhyw effaith sy'n deillio o gydnabod laith Arwyddion Prydain (BSL) mewn deddfwriaeth fel y'i cynlluniwyd a lansio Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru. Mae nifer o gynlluniau strategol sy'n gysylltiedig â gweithgarwch gofalwyr di-dâl wrthi'n cael eu diweddarau a'u hadolygu, e.e. Law yn llaw at iechyd meddwl.</p>

				Gan ddefnyddio cyllid Grant Llywodraeth Cymru i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, mae Gofalwyr Cymru yn sicrhau bod yr holl adnoddau gwybodaeth a chyngor i ofalwyr yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg.
1.4	Gweithio gyda rhanddeiliaid i feddwl yn greadigol am sut y gallwn ni hyrwyddo negeseuon mewn llyfeydd lle bydd ystod eang o ofalwyr di-dâl yn gallu cael gafael arnynt. Er enghraifft, amgylcheddau dysgu, clybiau ieuencid/cymdeithasol, siopau lleol a busnesau preifat, canolfannau cymunedol ac ati.	Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus, y trydydd sector	Yn syth	<p>Targedwyd amrywiaeth o leoliadau â phwyslais cymunedol yn ystod cyfnod print yr ymgyrch wybodaeth genedlaethol am hawliau gofalwyr, gan gynnwys meddygfeydd a llyfrgelloedd.</p> <p>Mae awdurdodau lleol sy'n cynnig y cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc cenedlaethol yn darparu gwybodaeth ac adnoddau lleol neu ranbarthol ar y cyd â darparwyr a gomisiynwyd o'r trydydd sector. Mae awdurdodau lleol yn gweithio hefyd gydag ysgolion, colegau a chyfleusterau hamdden lleol, er na chaiff gostyngiadau eu hariannu fel rhan o'r prosiect cerdyn adnabod cenedlaethol.</p> <p>Rydym yn hyrwyddo arfer da drwy weithredu ar sail dysgu sy'n deillio o brosiectau Age Cymru, Gofalwyr Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a ariennir gan y Grant ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy ac eraill. Er enghraifft, mae Gofalwyr Cymru yn rhannu adnoddau gwybodaeth i ofalwyr a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy feddygfeydd, fferyllfeydd cymunedol, llyfrgelloedd, archfarchnadoedd a chyflogwyr mawr ac ati.</p>
1.5	Adolygu'r data sydd ar gael ar werth economaidd gofal di-dâl, ar lefel genedlaethol ac unigol, ac ystyried a yw'n adlewyrchu'r darlun cyfredol neu a oes angen mwy o ddadansoddi.	Llywodraeth Cymru	Erbyn diwedd 2022	<p>Roedd adolygiad a gwblhawyd gan swyddogion o bapurau ymchwil ac adroddiadau sy'n canolbwyntio ar ofalwyr yn dangos bod yr amcangyfrif o £8.1 biliwn ar gyfer gwerth ariannol y gofal a ddarperir gan ofalwyr di-dâl yng Nghymru bob blwyddyn yn parhau'n berthnasol heddiw. Mae hyn yn seiliedig ar gyfrifiad yr adroddiad "Value for Caring" a gyhoeddwyd gan Carers UK yn 2015.</p> <p><a href="#">Value of unpaid care in Wales reaches over £8 billion a year - Carers UK</a></p> <p><b>Y trydydd sector: adroddiadau Gofalwyr Cymru</b></p>

				<p>Ymhlith cyhoeddiadau 2022 roedd yr adroddiad “Cyflwr Gofalu yng Nghymru 2022”. Mae adroddiadau Gofalwyr Cymru wedi ceisio amcangyfrif y newid yng ngwerth economaidd gofal di-dâl yn ystod 2022 a thynnu sylw ato, o ystyried effaith y pandemig a'r argyfwng costau byw ar ofalwyr di-dâl.</p> <p><b>Gweithgarwch y dyfodol</b></p> <p>Bydd gwaith yn mynd rhagddo yn ystod 2023 i ddadansoddi gwerth gofal di-dâl gan ddefnyddio data Cyfrifiad y DU 2021, a fydd yn cynnwys data o Gymru ar gyfanswm nifer y gofalwyr a nifer yr oriau gofal yr wythnos.</p>
1.6	Cysylltu â phobl sydd yn llygad y cyhoedd ac sy'n barod i fod yn llysgenhaden a hyrwyddo a dathlu gofalwyr di-dâl.	Llywodraeth Cymru, y trydydd sector	Erbyn diwedd 2022	Cytunwyd yng nghyfarfod Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2022 y dylid dileu'r cam gweithredu hwn o'r cynllun cyflawni.
<p><b>Ymrwymiadau'r Strategaeth</b></p> <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>gweithio gyda phartneriaid i barhau â'n Hymgyrch Ymwybyddiaeth o Hawliau Gofalwyr Di-dâl ac yn gweithio gyda rhanddeiliaid i hyrwyddo ei negeseuon i ystod eang o ofalwyr.</li> </ul>				
<b>Sut y byddwn yn cyflawni hyn</b>		<b>Sector/sefydliad</b>	<b>Cyfnod</b>	<b>Gweithgarwch a gwblhawyd</b>
1.7	Cyflawni ail gam yr ymgyrch hawliau gofalwyr.	Llywodraeth Cymru, Ymddiriedolaeth y Gofalwyr Cymru, Gofalwyr Cymru.	Ymgyrch hawliau gofalwyr – rhwng Hydref-Tachwedd 2021.	Cwblhawyd - yr ail gam wedi ei gyflawni ar ddiwedd 2021 a'r trydydd cam yng ngwanwyn 2022
<p><b>Ymrwymiadau'r Strategaeth</b></p> <p>Byddwn yn:</p>				

<ul style="list-style-type: none"> <li>Mabwysiadu'r term 'gofalwr di-dâl' ac yn annog ein partneriaid i ddefnyddio'r un derminoleg.</li> <li>Gweithio gyda gofalwyr di-dâl a'u cynrychiolwyr i herio unrhyw stigma sy'n gysylltiedig â'u rôl ofalu.</li> </ul>				
Sut y byddwn yn cyflawni hyn		Sector/sefydliad	Cyfnod	Gweithgarwch a gwblhawyd
1.8	<p>Cydweithio i bennu cyfres o egwyddorion iaith i'w defnyddio ar gyfer pob agwedd ar ofal di-dâl, cymorth a chodi ymwybyddiaeth. Fel rhan o'r gweithredu hwn byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod yr egwyddorion yn crisialu'r angen sylfaenol i lawer o bobl o allu cael gafael ar wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.</li> <li>Sicrhau bod yr egwyddorion yn adlewyrchu'r angen i sicrhau bod cyfathrebu'n hawdd a hwylus i ofalwyr di-dâl gydag amrywiaeth eang o brofiadau byw, gofynion iaith ac anghenion cyfathrebu hygyrch.</li> <li>Osgoi iaith sy'n stigmatiddio a blaenoriaethu'r berthynas ofalu rhwng y gofalwr a'r sawl sy'n derbyn gofal ganddo lle bo'n bosibl (e.e. aelod o'r teulu, ffrind, cymydog).</li> </ul>	Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr gofalwyr di-dâl, Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, y sector cyhoeddus, y trydydd sector.	Erbyn diwedd 2022	<p>Mae gwaith cwmpasu cychwynnol ar ddatblygu egwyddorion wedi cael ei wneud. Bydd rhagor o waith yn dechrau yn 2023. Gweler cysylltiadau â chamau gweithredu 1.2 a 1.3 uchod.</p> <p>Mae'r cyhoeddiad a'r gofynion yn y strategaeth Mwy na Geiriau ddiweddaraf hefyd yn effeithio ar y cam gweithredu hwn. Mae'r strategaeth hon yn nodi'r gofynion allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd mewn perthynas â'r Cynnig Rhagweithiol a'r Gymraeg.</p> <p><a href="#">Mwy na Geiriau: cynllun y Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol   LLYW.CYMRU</a></p> <p>Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Siarter newydd ar gyfer Gofalwyr, a gafodd ei lunio ar y cyd â Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr yn ogystal â gofalwyr di-dâl. Fe'i cyhoeddwyd ar 27 Hydref 2022.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a chyrrff cyhoeddus allweddol eraill yn defnyddio'r term gofalwr di-dâl yn gyson, a'r termau gweithiwr gofal, gweithwyr gofal cymdeithasol neu weithiwr cymdeithasol i wahaniaethu rhwng y grwpiau hyn.</p> <p>Roedd digwyddiadau'r fframwaith ymgysylltu â gofalwyr di-dâl a gynhaliwyd yn 2022 ar nodi gofalwr di-dâl, yn tynnu sylw at bryderon sy'n parhau, sef bod nifer o unigolion nad ydynt yn defnyddio'r term 'gofalwr' i ddisgrifio eu hunain, gan gynnwys pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf.</p> <p>Action will progress in 2023</p>

## Thema blaenoriaeth 1: Codi ymwybyddiaeth o ofalwyr di-dâl

### Ymrwymiadau'r Strategaeth

Byddwn yn:

- Codi ymwybyddiaeth o ofalwyr di-dâl ymysg gweithwyr proffesiynol a allai ddod i gysylltiad â nhw ar draws pob sector a lleoliad.
- Archwilio sut y gall gwasanaethau statudol nodi a chofnodi gwybodaeth am ofalwyr di-dâl yn well.
- sicrhau bod gwasanaethau wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion yr unigolyn sy'n cynnwys derbyn triniaeth a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Sut y byddwn yn cyflawni hyn		Sector/sefydliad	Cyfnod	Gweithgarwch a gwblhawyd
1.9	Drwy'r Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, ariannu a darparu hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Ofalwyr, gan weithio gyda staff ar bob lefel o systemau gofal cymdeithasol ac iechyd i godi ymwybyddiaeth o hawliau, rhannu arferion da ac annog cyd-gynhyrchu.	Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus, y trydydd sector.	31 Mawrth 2023  Cafodd y cynllun grant ei estyn i 2025, gyda chyllid ar gyfer prosiectau am ddwy flynedd ychwanegol.	Mae'r prosiect a wnaed ar y cyd gan Gofalwyr Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wedi hyfforddi mwy na 300 o weithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ogystal â myfyrwyr iechyd a gofal cyn cofrestru yng Nghymru drwy'r rhaglen hyfforddi 'Ymwybyddiaeth o Ofalwyr'. Cafodd fideos byr eu gwneud ac egwyddorion arfer da eu llunio ar y cyd â Chymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain, gweithwyr cymdeithasol eu hunain a gofalwyr di-dâl fel canllawiau ar gyfer sut i wella'r berthynas waith rhwng gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr.
1.10	<u>Hyfforddiant</u> Adolygu'r cyfoeth o opsiynau hyfforddiant a gynigir ledled Cymru ar hyn o bryd, nodi bylchau ac archwilio opsiynau i ddatblygu a rhannu enghreifftiau o arferion gorau i gefnogi gweithwyr proffesiynol mewn amrywiaeth o leoliadau gwahanol.  Fel rhan o'r adolygiad uchod, archwilio cynnwys modiwlau ar anghenion y Gymraeg, a phwysigrwydd nodi a diwallu anghenion grwpiau ymylol a	Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus	Erbyn diwedd 2024.	Mae grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) yn nodi gofalwyr di-dâl yn glir fel grŵp y mae angen cynllunio ar gyfer ei anghenion hyfforddiant a diwallu'r anghenion hynny.  Cafodd y gwaith o ddatblygu cymwysterau newydd ei gefnogi gan amrywiaeth eang o gynrychiolwyr o bob rhan o'r sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant.  Mae GCC wedi integreiddio gofalwyr di-dâl ym mhob un o'r prif unedau / cymwysterau ar lefelau 2, 3 a 4. Mae hefyd wedi arfer yr un dull ar lefel 5, ond mae 2 uned benodol ganddo hefyd – <i>arwain a rheoli cefnogaeth i ofalwyr ac arwain cefnogaeth i ofalwyr</i> .  Mae'r deunydd sy'n trafod gweithio gyda gofalwyr yn cynnwys elfennau o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant sy'n addas i bob cymhwyster / lefel, e.e. mae'r cymhwysedd Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn trafod yn fanwl hawliau gofalwyr i gael asesiad, ond

	rhai na chlywir ganddynt yn aml, a gofalwyr ifanc.			caiff hyn ei grybwyll yn unig yn ymarfer Lefel 2 a Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
<b>1.11</b>	<u>Hyfforddiant</u> Archwilio opsiynau i gynnwys hyfforddiant cyn ac ôl gymhwyster a Datblygiad Proffesiynol Parhaus i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i'w helpu i nodi a diwallu anghenion gofalwyr di-dâl.	Llywodraeth Cymru.	Erbyn diwedd 2024.	Fel rhan o'r prosiect Ymwybyddiaeth o Ofalwyr, mae'r sefydliadau arwain yn adolygu'r e-ddysgu ar ymwybyddiaeth o ofalwyr sydd ar gael i weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol drwy blatfform dysgu'r GIG.  Mae Ymwybyddiaeth o Ofalwyr wedi dechrau darparu hyfforddiant i fyfyrwyr ar gyrsiau iechyd a gofal ar lefel Addysg Uwch ac Addysg Bellach, gan helpu i sicrhau bod aelodau o'r gweithlu cyn cofrestru yn gwybod sut i gefnogi gofalwyr di-dâl pan fyddant yn dechrau eu gyrfa.
<b>1.12</b>	<u>Hyfforddiant</u> Archwilio ansawdd ac argaeledd modiwlau ar ofalwyr di-dâl mewn cyrsiau addysg uwch, ac a ydynt yn diwallu anghenion gweithwyr proffesiynol y dyfodol a ddaw i gysylltiad â gofalwyr di-dâl.	Llywodraeth Cymru, Addysg Uwch.	Erbyn diwedd 2023	Drwy'r prosiect Ymwybyddiaeth o Ofalwyr, mae Gofalwyr Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn gweithio gyda cholegau a phrifysgolion ledled Cymru i ddarparu adnoddau er mwyn sicrhau bod y bobl hynny sy'n cael cymwysterau mewn proffesiynau gwaith cymdeithasol ac iechyd yn deall gofalwyr di-dâl a'u hanghenion. (Cysylltiedig â Blaenoriaeth 1.9)
<b>1.13</b>	<u>Achrediad</u> Adolygu argaeledd ac effaith cynlluniau achredu cyfredol, fel y Cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr, y Cynllun Cyfeillgar i Ofalwyr a rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion a nodi bylchau ac archwilio opsiynau i ddatblygu a rhannu arferion gorau	Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus, y trydydd sector	Erbyn diwedd 2024.	Bydd angen gwaith er mwyn parhau i fapio cynlluniau llwyddiannus sydd eisoes ar waith ac er mwyn edrych ar sut y caiff y cynlluniau hyn eu hariannu, yn ogystal â meddwl am ba gyfleoedd allai fod i'w hehangu neu eu mabwysiadu fel templedi i'w defnyddio ledled Cymru.  Mae trafodaethau cychwynnol wedi cael eu cynnal â byrddau iechyd lleol, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a Care Collective am y rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion sydd ar y gweill.  Mae rhaglen achredu Cyflogwyr i Ofalwyr, sy'n cael ei harwain gan Gofalwyr Cymru, yn rhoi cyfle i unrhyw gyflogwyr gyflwyno polisiau a hyfforddiant i staff er mwyn cefnogi gofalwyr di-dâl sy'n rhan o'u gweithlu.



1.14	<p><u>Adnoddau a chanllawiau</u></p> <p>Hyrwyddo'r adnoddau a'r canllawiau a gynigir gan Gofal Cymdeithasol Cymru i helpu ymarferwyr gofal cymdeithasol sy'n gweithio gyda gofalwyr di-dâl.</p>	Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus, y trydydd sector.	Ar unwaith	<p>Defnyddio bwletinau Gofal Cymdeithasol Cymru yn rheolaidd i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr di-dâl ymhlith y gweithlu gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol gan gynnwys cyfleoedd i gael hyfforddiant a chyfleoedd datblygu – gellir cyrraedd tua 40,000 o weithwyr cofrestredig a thanysgrifwyr eraill.</p> <p>Categori newydd yng Ngwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru i gydnabod gwaith timau ac unigolion gyda gofalwyr di-dâl. <a href="#">Gwobrau 2023   Gofal Cymdeithasol Cymru</a></p> <p>Mae'r holl ddeunydd cyfathrebu a negeseuon a gynhyrchir gan GCC yn ddwyieithog</p>
1.15	<p><u>Cofnodi statws gofalwr</u></p> <p>Archwilio manteision, cyfyngiadau ac ystyriaethau moesegol cofrestr genedlaethol ar gyfer gofalwyr di-dâl, ac a oes angen mecanwaith cenedlaethol i gefnogi meddygon teulu i gynnal gwybodaeth am ofalwyr di-dâl.</p>	Llywodraeth Cymru, Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr Di-dâl	Erbyn diwedd 2023	Mae trafodaethau'n parhau â Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, swyddogion Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gytuno ar ffordd ymlaen, gyda'r bwriad o lansio cofrestr yn 2023 sy'n rhoi'r opsiwn i ofalwyr di-dâl gofrestru eu hunain.
1.16	<p><u>Hyrwyddwyr gofalwyr</u></p> <p>Annog sefydliadau i benodi hyrwyddwr gofalwyr, a'u cefnogi yn eu rôl drwy adnoddau a hyfforddiant cyfredol ac arfaethedig.</p>	Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus, y sector preifat.	Ar unwaith	Mae'r gweithgarwch hwn yn gysylltiedig â blaenoriaeth 4 a gweithgarwch gan Gofalwyr Cymru, Llywodraeth Cymru ac eraill i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr sydd wedi'u cyflogi.
1.17	<p><u>Cefnogi gofalwyr di-dâl drwy ryddhau o'r ysbyty</u></p> <p>Archwilio opsiynau i rannu cynlluniau arferion da cyfredol yn ehangach – cynlluniau sy'n nodi a chynnig cymorth i</p>	Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd Lleol, y trydydd sector.	Erbyn diwedd 2023	<p>Mae Gofalwyr Cymru wedi diweddarau ei ganllaw i ofalwyr di-dâl ar ryddhau cleifion o'r ysbyty ac mae'n gweithio gyda Confederasiwn GIG Cymru i hyrwyddo'r canllaw.</p> <p>Cafodd y cyllid £1m ar gyfer gofalwyr i fyrdau iechyd lleol, sy'n cael ei reoli gan Fyrdau Partneriaeth Rhanbarthol bellach, ei ailgyfeirio yn ystod 2022-23 i ganolbwyntio ar gymorth i ofalwyr pan fydd y person y</p>

	<p>ofalwyr di-dâl drwy broses rhyddhau o'r ysbyty, er enghraifft Hwyluswyr Ysbyty (y Gogledd). Bydd hyn yn arbennig o bwysig i unigolion sy'n ymgymryd â'u rôl fel gofalwyr am y tro cyntaf.</p>			<p>maent yn gofalu amdano yn cael ei dderbyn i'r ysbyty neu'n cael ei ryddhau o'r ysbyty. Mae'r cyllid wedi'i glustnodi yn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.</p> <p>Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wedi gweithio gydag arweinwyr gofalwyr mewn byrddau iechyd a gofalwyr di-dâl drwy'r prosiect "Ymwybyddiaeth o Ofalwyr" a ariennir gan grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru er mwyn llunio canllawiau i helpu gweithwyr ysbyty proffesiynol i weithio gyda gofalwyr yn y broses rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Bwriedir cyhoeddi'r canllawiau yng ngwanwyn 2023.</p>
--	--	--	--	--

<p><b>Thema blaenoriaeth 1: Gweithio gydag awdurdodau lleol i wella asesiadau gofalwyr</b></p>				
<p><b>Ymrwymiadau'r Strategaeth</b> Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddio'r data a gasglwn i ddatblygu ystod o atebion sy'n galluogi awdurdodau lleol i ddarparu asesiadau statudol sy'n ymatebol i anghenion unigol gofalwyr di-dâl mewn modd amserol ac effeithiol</li> </ul>				
<p><b>Sut y byddwn yn cyflawni hyn</b></p>	<p><b>Sector/sefydliad</b></p>	<p><b>Cyfnod</b></p>	<p><b>Gweithgarwch a gwblhawyd</b></p>	
<p><b>1.18</b></p>	<p>Defnyddio'r canfyddiadau o ymchwil SCIE a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, Prosiect Datblygu Data Iechyd Cyhoeddus Cymru, a data o'r Fframwaith Perfformiad a Gwella i benderfynu pa gamau gweithredu penodol sydd eu hangen i wella'r nifer sy'n cael asesiadau o anghenion gofalwyr.</p>	<p>Llywodraeth Cymru.</p>	<p>Erbyn diwedd 2022</p>	<p>Mae Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru wedi comisiynu Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i gynnal adolygiad cyflym o effaith barhaus COVID-19 ar ddarpariaeth gwasanaethau awdurdod lleol i ofalwyr di-dâl. Mae gwaith ar yr adolygiad wedi dechrau.</p>
<p><b>Ymrwymiadau'r Strategaeth</b> Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>trafod gyda Gofal Cymdeithasol Cymru yr angen i ddatblygu rhagor o adnoddau hyfforddi a gwybodaeth ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol.</li> </ul>				

Sut y byddwn yn cyflawni hyn		Sector/sefydliad	Cyfnod	Gweithgarwch a gwblhawyd
1.19	<p>Gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac awdurdodau lleol i benderfynu pa ganllawiau ac adnoddau pellach sydd eu hangen i gefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol gydag asesiadau o anghenion gofalwyr.</p> <p>Gallai hyn gynnwys adolygiad o ffynonellau cyfredol o ganllawiau arfer da ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n cynnal asesiadau, er enghraifft canllawiau Sgyrsiau Gofalwyr Rhondda Cynon Taf.</p>	Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol	Erbyn diwedd 2023	<p>Mae Gofalwyr Cymru wedi cyhoeddi egwyddorion arfer da i weithwyr cymdeithasol yn ogystal ag amrywiaeth o ffilmau gwybodaeth sydd ar gael am ddim yn <a href="http://www.carersuk.org/wales">www.carersuk.org/wales</a>.</p> <p>Mae'r adnodd e-ddysgu Ymwybyddiaeth o Ofalwyr wedi bod ar gael drwy blatfform dysgu y GIG. Mae'r cynnwys presennol wedi cael ei adolygu ac mae'n parhau'n berthnasol ac yn gyfredol ar gyfer y cynulleidfa oedd a fwriedir. Caiff ei adolygu eto ar ddechrau 2023 i adlewyrchu canlyniadau Cyfrifiad y DU 2021.</p> <p><a href="#">Gweithio gyda gofalwyr di-dâl   Gofal Cymdeithasol Cymru</a></p>

Thema blaenoriaeth 1: Cefnogi gofalwyr di-dâl i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed				
<h3>Ymrwymiadau'r Strategaeth</h3> <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Buddsoddi mewn mecanweithiau sy'n cefnogi gofalwyr di-dâl i leisio'u barn ar lefelau cenedlaethol, lleol a rhanbarthol.</li> </ul>				
Sut y byddwn yn cyflawni hyn		Sector/sefydliad	Cyfnod	Gweithgarwch a gwblhawyd
1.20	Adolygu aelodaeth y Grŵp Ymgysylltu â Gofalwyr i sicrhau ei fod yn cynnwys cynrychiolaeth o ystod eang o brofiadau gofalwyr.	Llywodraeth Cymru.	Erbyn Mawrth 2022	Ar ôl cwblhau'r adolygiad, rhoddwyd Fframwaith newydd Ymgysylltu â Gofalwyr ar waith i ofalwyr sy'n oedolion a gofalwyr ifanc yn ystod 2022-23.

1.21	Rhannu enghreifftiau o arferion gorau mewn perthynas â phaneli ymgysylltu â gofalwyr rhanbarthol neu grwpiau llywio sy'n hwyluso cynnwys llais a phrofiad gofalwyr wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau.	Awdurdodau Lleol	Erbyn diwedd 2022	<p>Mae Gofalwyr Cymru yn parhau i gynnal cyfarfodydd chwarterol Cynrychiolwyr Gofalwyr y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddarparu cefnogaeth a rhannu arferion gorau.</p> <p>Yn Sir Benfro, sefydlwyd Fforwm Llais Gofalwyr ym mis Ionawr 2022 er mwyn darparu mecanwaith i gynnwys gofalwyr yn y gwaith o ddylunio a datblygu gwasanaethau cymorth.</p>
1.22	Archwilio gwahanol fformatau ar gyfer cael barn gofalwyr di-dâl i lywio datblygiad a darpariaeth gwasanaethau sy'n ystyried y ffaith y gall gofalwyr di-dâl fod yn brin o amser yn aml a hwyrach yn methu ymrwymo i gyfarfodydd rheolaidd. Er enghraifft, holiaduron, ymarferion gwranddo.	Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd	Erbyn diwedd 2022	<p>Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn darparu'r Fframwaith ar gyfer Ymgysylltu â Gofalwyr Di-dâl ar ran Llywodraeth Cymru. Mae gwaith ymgysylltu rheolaidd â gofalwyr di-dâl, cyfarfodydd y gall pawb fynd iddynt, a gynhelir ar-lein gyda chylch gorchwyl cenedlaethol.</p> <p>Cynhelir cyfarfodydd penodol i glywed gan ofalwyr nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn gwasanaethau. Mae thema pob cyfarfod yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Strategaeth. Sefydlwyd ffrwd waith gyfochrog yn haf 2022 er mwyn clywed gan ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc ar lefel genedlaethol. Mae'r ddwy ffrwd waith yn adrodd yn chwarterol i Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr a swyddogion Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae aelodau o Gynghrair Cynhalwyr Cymru a sefydliadau eraill yn rhoi adborth drwy gyfarfodydd rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru a thrafodaethau â Gweinidogion Cymru.</p>
<p><b>Ymrwymiadau'r Strategaeth</b> Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cefnogi gofalwyr di-dâl ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac mewn cymunedau lleol i deimlo'n fwy hyderus yn eu rolau cynrychioliadol.</li> </ul>				
<b>Sut y byddwn yn cyflawni hyn</b>		<b>Sector/sefydliad</b>	<b>Cyfnod</b>	<b>Gweithgarwch a gwblhawyd</b>
1.23	Adolygu'r gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiad sbotolau y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ym mis Mehefin 2021 ac archwilio sut y gellir gweithredu'r awgrymiadau a	Llywodraeth Cymru, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol	Erbyn canol 2022	Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan Lywodraeth Cymru i wneud gwaith dilynol ar y materion a godwyd gan ofalwyr. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar rôl a mewnbwn y cynrychiolwyr gofalwyr a dinasyddion ar fyrddau partneriaeth rhanbarthol. Cwblhawyd gwaith cam 1 y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a chymeradwyodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithaso adroddiad. Roedd y gwaith

	wnaed i gefnogi cynrychiolwyr gofalwyr di-dâl.			hwn yn cynnwys datblygu siarter i fyrddau partneriaeth rhanbarthol ei defnyddio a llunio disgrifiadau swydd cyffredin ar gyfer y cynrychiolwyr gofalwyr / dinasyddion. Mae'r siarter i fyrddau partneriaeth rhanbarthol a'r disgrifiadau wedi cael eu cyhoeddi ac maent yn cael eu defnyddio.  Dechreuodd gwaith cam 2 i adolygu Rhan 2 a Rhan 9 o Godau Ymarfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn haf 2022 a bydd yn parhau ar ddechrau 2023.
1.24	Parhau i ariannu a darparu hyfforddiant cynrychioli gofalwyr a hyfforddiant hunaneiriolaeth gofalwyr drwy'r Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy.	Llywodraeth Cymru / Gofalwyr Cymru	31 Mawrth 2023.	Bydd yr hyfforddiant hunaneiriolaeth a oedd yn cael ei gynnig fel rhan o brosiect Gofalwyr Cymru, sef "Grymuso a Llesiant Gofalwyr", yn dod i ben yn sgil cytundeb â Llywodraeth Cymru oherwydd nifer y sefydliad sy'n cynnig hyfforddiant o'r fath. Fodd bynnag, mae Gofalwyr Cymru yn parhau i hyrwyddo Pecyn Cymorth Hunaneiriolaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ofalwyr di-dâl

## Blaenoriaeth 2: Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth

Mae'n hanfodol bod gan ofalwyr di-dâl fynediad at yr wybodaeth a'r cyngor cywir ar yr adeg gywir ac mewn fformat priodol.

*Bydd y camau gweithredu o dan Flaenoriaeth 1 ynghylch hyfforddiant, achrediad a chanllawiau ac adnoddau i weithwyr proffesiynol hefyd yn cyfrannu at Flaenoriaeth 2.*

<b>Thema blaenoriaeth 2: Codi ymwybyddiaeth o ffyrdd o gael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth</b>			
<b>Ymrwymadau'r Strategaeth</b>			
Byddwn yn:			
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwella mynediad cyfartal i wybodaeth, cyngor a chymorth ar draws pob rhan o Gymru.</li> <li>Codi ymwybyddiaeth o ffyrdd amgen o gael gafael ar wybodaeth fel meddygfeydd, gwasanaethau cymunedol, neu adnoddau ar-lein fel DEWIS Cymru.</li> <li>Cydnabod bod gan ofal cymdeithasol a gwasanaethau eraill fel tai, trafnidiaeth, gwasanaethau amddiffynnol a chynlluniau cyflogadwyedd i gyd gyfrifoldeb i ddarparu gwybodaeth a chymorth i ofalwyr di-dâl.</li> <li>Parhau i ddysgu o'r addasiad llwyddiannus o wasanaethau mewn ymateb i'r pandemig</li> </ul>			
<b>Sut y byddwn yn cyflawni hyn</b>	<b>Sector/sefydliad</b>	<b>Cyfnod</b>	<b>Gweithgarwch a gwblhawyd</b>

2.1	Adolygu hybiau gwybodaeth a chymorth a llinellau cymorth lleol a chenedlaethol er mwyn archwilio opsiynau i hyrwyddo a rhannu arferion gorau'n ehangach. Mae enghreifftiau'n cynnwys llinell gyngor genedlaethol Gofalwyr Cymru, Hyb Gofalwyr Gwent a Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Ceredigion.	Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, y trydydd sector.	Erbyn diwedd 2023	<p>Mae Carers UK / Gofalwyr Cymru yn parhau i ddarparu llinell gymorth genedlaethol.</p> <p>Mae nifer o awdurdodau lleol yn darparu un pwynt cyswllt ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol, gan gynnwys gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr ac asesiadau o anghenion gofalwyr.</p> <p>Caiff enghreifftiau o brosiectau a gwasanaethau newydd megis canolfannau cyswllt a gwasanaethau gwybodaeth, sy'n rhoi cymorth uniongyrchol i ofalwyr di-dâl, eu nodi yn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'u rhannu â rhanddeiliaid. Bwrir ymlaen â'r gwaith yn ystod 2023.</p>
2.2	<p>Rhannu arferion gorau ar sut mae sefydliadau'n darparu adnoddau, canllawiau a chyfeiriadau mewn lleoliadau sy'n hygyrch i ystod eang o ofalwyr di-dâl, yn cynnwys unigolion sy'n llai tebygol o nodi eu hunain yn ofalwyr di-dâl.</p> <p>Gweithio gyda phartneriaid a sefydliadau sy'n derbyn y Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i lenwi unrhyw fylchau a nodwyd lle nad yw rhai cohortau o ofalwyr di-dâl yn cael eu cyrraedd o bosibl.</p>	Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus, y trydydd sector.	Erbyn diwedd 2023	<p>(Cysylltiedig â blaenoriaeth 1)</p> <p>Mae nifer o sefydliadau'r trydydd sector ledled Cymru wedi bod yn rhoi cymorth rhagweithiol i'r gwaith o gyflawni amrywiaeth o brosiectau, er enghraifft creu plattform rhanbarthol i ofalwyr yn Sir Benfro a gwefan gysylltiedig er mwyn darparu un pwynt mynediad i ofalwyr gael gafael ar gyngor a chymorth.</p>
2.3	Archwilio a all arferion gorau presennol hyfforddiant i ofalwyr di-dâl i gefnogi'r rhai sy'n derbyn gofal ganddynt, gael eu rhannu'n ehangach neu eu cynyddu i ddarparu cynnig genedlaethol.	Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus	Erbyn diwedd 2023	Mae trafodaethau wedi dechrau â sefydliadau gofalwyr genedlaethol, Gofal Cymdeithasol Cymru ac eraill i ddechrau cwmpasu'r gwaith hwn.
<p><b>Ymrwymadau'r Strategaeth</b></p> <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Archwilio sut i wella mynediad ymhellach i wasanaethau eiriolaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl.</li> </ul>				

Sut y byddwn yn cyflawni hyn		Sector/sefydliad	Cyfnod	Gweithgarwch a gwblhawyd
2.4	Parhau i ariannu a darparu hyfforddiant ar Hawliau Gofalwyr ac ar Hunaneiriolaeth i ofalwyr di-dâl drwy'r Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Cynnal gwerthusiad o'r prosiect a nodi pa wersi y gellir eu rhannu a'u mabwysiadu.	Llywodraeth Cymru, Gofalwyr Cymru	Cyllid cyfredol hyd 2023	Mae Gofalwyr Cymru wedi parhau i ddarparu hyfforddiant ar hawliau gofalwyr a hunaneiriolaeth i ofalwyr di-dâl. (Cysylltiedig ag 1.24)
2.5	Sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael eu hystyried yn benodol fel rhan o bolisiâu a mentrau i wella gwasanaethau eiriolaeth a'r nifer sy'n manteisio arnynt.	Llywodraeth Cymru.		(Cysylltiedig â cham gweithredu o dan 2.4)
<b>Ymrwymiadau'r Strategaeth</b> Byddwn yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i weithio gyda phartneriaid i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar yr hawliau a chodi ymwybyddiaeth ohonynt</li> </ul>				
Sut y byddwn yn cyflawni hyn		Sector/sefydliad	Cyfnod	Gweithgarwch a gwblhawyd
	Mae'r ymrwymiad hwn yn cysylltu â chamau gweithredu Blaenoriaeth Pedwar – Cynyddu gwytnwch ariannol			Gweler Blaenoriaeth 4 isod
2.6	Sicrhau bod anghenion gofalwyr di-dâl yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisiâu manteisio i'r eithaf ar incwm a system budd-daliadau Cymru.	Llywodraeth Cymru.	Yn syth	Caiff gofalwyr di-dâl eu cynrychioli ar weithgorau cynyddu incwm i'r eithaf Llywodraeth Cymru. (Cysylltiedig â cham weithredu 1.7 o dan Flaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 4) <b>Taliad £500 i Ofalwyr</b> Cwblhawyd ymgyrch wybodaeth genedlaethol am y taliad untro o £500 i ofalwyr gan Lywodraeth Cymru. Roedd modd i ofalwyr cymwys gofrestru yn ystod dau gyfnod cofrestru a gynhaliwyd yn

			<p>ystod gwanwyn a haf 2022. Roedd y bobl hynny a oedd yn cael Lwfans Gofalwyr ar 31 Mawrth 2022 yn gymwys i gael y taliad.</p> <p>Gwnaeth 77% o ofalwyr cymwys wneud cais am y taliad yn llwyddiannus.</p> <p><b>Y Gronfa Gymorth i Ofalwyr</b></p> <p>Cafodd y gronfa ei ailagor ym mis Tachwedd 2022 a chaiff ei weinyddu gan bartneriaeth rhwydwaith Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector. Mae blwyddyn 3 o'r gronfa (2022-23) yn adeiladu ar y ddwy flynedd flaenorol a roddodd gymorth yn llwyddiannus i fwy na 10,000 o ofalwyr, nad oedd 32.6% ohonynt yn hysbys i wasanaethau yn flaenorol.</p> <p><b>Cymorth ar gyfer ymgyrchoedd gwybodaeth a chynlluniau sy'n gysylltiedig â threchgu tlodi a helpu gofalwyr di-dâl i gynyddu eu hincwm i'r eithaf.</b></p> <p>Mae enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diwrnod Gweithredu Credyd Pensiwn yr Adran Gwaith a Phensiynau</li> <li>• Gwasanaethau budd-daliadau Llywodraeth Cymru Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi</li> <li>• Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf Llywodraeth Cymru a lanswyd gan Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar 02 Chwefror 2022. Estynnwyd y meini prawf cymhwysedd i gynnwys unigolion sy'n hawlio Lwfans Gofalwyr yr Adran Gwaith a Phensiynau.</li> </ul> <p><a href="#">Datganiad Ysgrifenedig: Cynyddu Taliad y Cymorth Tanwydd Gaeaf (2 Chwefror 2022)   LLYW.CYMRU</a></p>
--	--	--	--

<p><b>Thema blaenoriaeth 2: Mynd i'r afael â'r gagendor digidol</b></p>
<p><b>Ymrwymiadau'r Strategaeth</b></p>



Byddwn yn:				
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mynd i'r afael â'r gagendor digidol sydd wedi dod i'r amlwg yn sgil y pandemig.</li> </ul>				
Sut y byddwn yn cyflawni hyn		Sector/sefydliad	Cyfnod	Gweithgarwch a gwblhawyd
2.7	Sicrhau bod anghenion gofalwyr di-dâl yn cael eu hystyried wrth ddarparu Strategaeth Ddigidol i Gymru.	Llywodraeth Cymru.	Yn syth	Bydd trafodaethau yn parhau â swyddogion Llywodraeth Cymru o ran goblygiadau ac effaith y Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl.
2.8	Rhannu arferion gorau cynlluniau lleol gan ddarparu cyfarpar, adnoddau a sgiliau TG a chymorth i helpu gofalwyr di-dâl i ddefnyddio technoleg er mwyn cynnal eu lles eu hunain a'r rhai sy'n derbyn gofal ganddynt.	Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus, y trydydd sector.	Erbyn canol 2022	Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu cyfeiriadur ar-lein o enghreifftiau o arferion gorau ar gyfer y cymorth digidol sydd ar gael ledled Cymru.  Ymhlith yr enghreifftiau o gymorth digidol a gafodd eu cynnwys ar lefel ranbarthol oedd help ar gyfer gofalwyr ethnig lleiafrifol yn ardal bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gwent megis Cwib Gofalwyr. Mae'r prosiect hwn wedi helpu oedolion ethnig lleiafrifol yn sylweddol o ran cael eu cynnwys yn ddigidol. Mae gofalwyr yn mynd i sesiynau Caffi Cwib Gofalwyr ar-lein i gynllunio gweithgareddau a digwyddiadau'r dyfodol, er enghraifft, i ddathlu picnic Eid, ciniawau teulu, y Genhedlaeth Windrush, Mela Big John a digwyddiadau Diwali.
2.9	O ran gwasanaethau a negeseuon i ofalwyr di-dâl, sicrhau bod yna opsiynau hygyrch eraill i unigolion, sy'n methu neu'n amharod i ddefnyddio gwasanaethau digidol neu'n anfodlon gwneud hynny.	Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus, y trydydd sector.	Erbyn diwedd 2022	Gofynnwyd i aelodau o Rwydwaith Gwella a Dysgu Swyddogion Gofalwyr gyflwyno enghreifftiau o sut maent yn darparu opsiynau eraill hawdd eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau digidol.
2.10	Archwilio'r defnydd o Ofal a Alluogir gan Dechnoleg sy'n galluogi unigolion ag anghenion gofal a chymorth i fod yn fwy annibynnol ac yn lleihau'r pwysau ar ofalwyr di-dâl.	Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus	Erbyn diwedd 2023	Mae Gofalwyr Cymru yn parhau i hyrwyddo ap Carers UK, sef "Jointly", sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, er mwyn helpu gofalwyr di-dâl i reoli eu rôl ofalu. Mae cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi galluogi Gofalwyr Cymru i greu deunyddiau hyrwyddo dwyieithog <a href="http://www.jointlyapp.com">www.jointlyapp.com</a> .

## Blaenoriaeth 3: Helpu gofalwyr i fyw yn ogystal â gofalu

Rhaid i bob gofalwr di-dâl gael cyfle i gymryd seibiannau o'i rôl ofalu i'w alluogi i gynnal ei iechyd a'i lesiant ei hun a byw yn ogystal â gofalu.

<b>Thema blaenoriaeth 3: Gwella mynediad i wyliau byr a gofal seibiant ac ehangu'r ystod o opsiynau seibiant sydd ar gael</b>			
<b>Ymrwymiadau'r Strategaeth</b>			
Byddwn yn:			
<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu model cenedlaethol ar gyfer opsiynau seibiant yng Nghymru.</li> <li>Deall sut y gellir ailddiffinio opsiynau seibiant i ddiwallu angen yr unigolyn, yn cynnwys dewisiadau eraill i'r model "traddodiadol" o ofal dros nos i'r unigolyn ag anghenion gofal.</li> <li>Gweithio tuag at ddealltwriaeth well o sut y gellir cael seibiant o ofalu, sut y gellir ei ariannu a'i ddarparu gan amrywiaeth o ddarparwyr.</li> <li>Archwilio sut y gellir cyflwyno dulliau arloesol o gynnig opsiynau seibiant, yn cynnwys model 'respitality' yr Alban yng Nghymru.</li> </ul>			
<b>Sut y byddwn yn cyflawni hyn</b>	<b>Sector/sefydliad</b>	<b>Cyfnod</b>	<b>Gweithgarwch a gwblhawyd</b>
<b>3.1</b>	Adolygu yr argymhellion a'r 12 egwyddor yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, sef <i>'What a difference a break makes: a vision for the future of short breaks for unpaid carers in Wales'</i> , a chydweithio i gytuno ar lwybr gweithredu.	Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus, y trydydd sector.	Erbyn diwedd 2021
<b>3.2</b>	Datblygu model 'seibiantgarwch' Cymru, gan ddyngu o wersi'r Alban a phrosiect Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan, 'Cymunedau Gofalu o Newid' a ariennir drwy Grant	Llywodraeth Cymru, y sector preifat, y trydydd sector.	Erbyn diwedd 2023
			<p><b>Y Gronfa Seibiannau Byr – £9m dros dair blynedd o 2022</b></p> <p>Cyllid i gefnogi'r gwaith o greu Cynllun Seibiannau Byr newydd gyda 40% wedi'i ddyrannu i fyrddau partneriaeth rhanbarthol a 60% i sefydlu ffrwd newydd o grantiau i'r trydydd sector, <a href="#">Amser</a>, a lanswyd ym mis Ionawr 2023.</p> <p>Penodwyd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn 2022 yn gorff rheoli ar gyfer y gronfa seibiannau byr newydd yn dilyn proses gystadleuol.</p> <p>Ymchwilir i gysyniad Seibiantgarwch fel rhan o gamau gweithredu gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a thrwy gyflwyno'r Gronfa Seibiannau Byr – gweler cam gweithredu 3.1</p>

	Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy y Trydydd Sector.			
3.3	NEWCIS i hyrwyddo eu model llwyddiannus o gronfa seibiannau byr i leoliadau ledled Cymru.	NEWCIS – corff trydydd sector	2021-22	Cynhyrchodd gwasanaeth gofalwyr NEWCIS becyn cymorth i rannu arferion da.
3.4	Annog y rhai sy'n cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr i gynnwys seibiannau a gwyliau byr fel elfen allweddol o'r sgysiau hynny.	Awdurdodau Lleol	Ar unwaith	Bydd trafodaethau ag awdurdodau lleol a sefydliadau sy'n cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr yn parhau.  Bydd y Gronfa Seibiannau Byr newydd i ofalwyr yn darparu cyfleoedd i ofalwyr o bob oedran fanteisio ar weithgaredd sy'n rhoi seibiant iddynt rhag eu cyfrifoldebau gofalu. Ni fydd yn gysylltiedig ag asesiadau o anghenion gofalwr na chael Lwfans Gofalwyr.
3.5	Parhau i archwilio'r rhesymau sy'n sail i wahanol ddehongliadau o ganllawiau a deddfwriaeth wrth wneud penderfyniadau ar ddyrannu seibiant i'r gofalwr neu i'r unigolyn sy'n derbyn gofal. Datblygu canllawiau egluro sy'n seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth.	Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol	Erbyn diwedd 2022	Caiff y gwaith hwn ei lywio gan y gwerthusiad o'r Gronfa Seibiannau Byr newydd i ofalwyr di-dâl, yn ogystal â'r ymchwil a gomisiynwyd ar asesiadau o anghenion gofalwyr.
<b>Ymrwymadau'r Strategaeth</b> Byddwn yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio gyda gofalwyr di-dâl a'n partneriaid i sicrhau bod y derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio gofal seibiant yn gweddu i'r cyd-destun a'r gwasanaeth a gynigir ac i'w gwneud yn glir y gall gofal seibiant fod yn ataliol.</li> </ul>				
<b>Sut y byddwn yn cyflawni hyn</b>		<b>Sector/sefydliad</b>	<b>Cyfnod</b>	<b>Gweithgarwch a gwblhawyd</b>
3.6	Cynnwys terminoleg seibiannau byr gyda'r cam gweithredu ar egwyddorion iaith o dan Flaenoriaeth Un. Bydd	Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr gofalwyr di-dâl,	Parhaus	Gweler 1.8

	egwyddorion iaith sy'n gysylltiedig â seibiannau byr yn briodol ac yn adlewyrchu y gellir cymryd seibiannau gyda'i gilydd neu ar wahân, ac y gallant fod yn ataliol eu natur.	Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, y sector cyhoeddus, y trydydd sector.		
<b>Ymrwymadau'r Strategaeth</b> Byddwn yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>Blaenoriaethu'r galw cynyddol am ganolfannau dydd a gwasanaethau eistedd gyda rhywun a gofal amgen mwy traddodiadol, a modelau arloesol o ddarparu seibiannau dros y flwyddyn i ddod.</li> </ul>				
<b>Sut y byddwn yn cyflawni hyn</b>		<b>Sector/sefydliad</b>	<b>Cyfnod</b>	<b>Gweithgarwch a gwblhawyd</b>
<b>3.7</b>	<p>Ariannu a darparu opsiynau seibiant byr i fodloni'r cynnydd yn y galw wrth i gyfyngiadau symud gael eu llacio.</p> <p>Darparu gwasanaethau eistedd gyda rhywun a gofal amgen mwy traddodiadol, gweithio ar draws sectorau a chyda chymunedau lleol i ddatblygu dulliau mwy arloesol.</p>	Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, y trydydd sector, byrddau iechyd lleol	31 Mawrth 2022	<p>Gweler cam gweithredu 3.2.</p> <p>Cafodd swm o £3m o gyllid seibiant ei ddsbarthu i awdurdodau lleol yn ystod 2021-22. At hynny, rhoddwyd swm ychwanegol o £5.5m i awdurdodau lleol yn ystod 2021-22 ar gyfer cymorth i ofalwyr di-dâl a allai gynnwys cymorth ar gyfer seibiannau a gwyliau byr.</p> <p>Sicrhawyd cyllid o £9m dros 3 blynedd ar gyfer 2022-25 gyda'r Gronfa Seibiannau Byr newydd a gyhoeddwyd yn haf 2022.</p>
<b>Ystyriaethau ychwanegol</b>				
<b>3.8</b>	<p><u>Y Gymraeg</u></p> <p>Er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, cynnig cyfleoedd i ddysgu neu wella sgiliau Cymraeg fel math o weithgaredd seibiant byr.</p>	Awdurdodau Lleol, y trydydd sector	Erbyn diwedd 2022	Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnig nifer o wahanol gyrsiau blasu ar gael am ddim, ar-lein ac wyneb yn wyneb, y mae modd i ofalwyr di-dâl fanteisio arnynt. Mae teithiau preswyl ar gael hefyd i unigolion sydd am ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg, er enghraifft, yn Nant Gwrtheyrn gall pobl fynd i wersi sy'n amrywio o lefel flasu i lefel uwch, gan aros ar y safle ar gyfer cyrsiau 3 i 5 diwrnod.

### Thema blaenoriaeth 3: Ehangu mynediad at gymorth seicolegol

#### Ymrwymadau'r Strategaeth

Byddwn yn:

- Sicrhau bod ystod o gymorth seicolegol ar gael i ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn ystod asesiad o anghenion gofalwyr.
- Sicrhau bod gwasanaethau sydd ar gael yn cael eu teilwra i anghenion ac amgylchiadau unigol y gofalwr.
- Cydnabod y gallai gofalwyr di-dâl elwa ar gymorth seicolegol ar ffurf cwnsela ar gyfer straen neu alar.
- Buddsoddi mewn amrywiaeth o gymorth seicolegol.
- Archwilio sut y gall modelau cymorth newydd a ddatblygodd yn ystod y pandemig arwain at welliannau yn narpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol.

Sut y byddwn yn cyflawni hyn		Sector/sefydliad	Cyfnod	Gweithgarwch a gwblhawyd
3.9	Sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael eu hystyried wrth ddatblygu a gweithredu polisi ehangach ym maes iechyd meddwl.	Llywodraeth Cymru.	Ar unwaith	<p>Mae polisi gofalwyr di-dâl Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r cynllun cenedlaethol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Caiff camau gweithredu penodol sy'n berthnasol i ofalwyr eu cynnwys a'u diweddarau bob blwyddyn. Sicrheir cysylltiad rheolaidd â pholisïau iechyd meddwl oedolion a phlant, a thynnir sylw at raglenni perthnasol ar gyfer gofalwyr. Mae'r Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc ymhlith y rhain.</p> <p>Mae adnoddau iechyd meddwl ar-lein megis SilverCloud, sef gwasanaeth therapi ar-lein am ddim, sydd wedi ei gynllunio i helpu pobl sy'n profi gorbryder, iselder neu straen ysgafn i gymedrol i reoli eu hiechyd meddwl a'u llesiant.</p> <p><a href="#">SilverCloud - Therapi Iechyd Meddwl Ar-lein am Ddim - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)</a></p>
3.10	Codi ymwybyddiaeth ymarferwyr o'r cymorth seicolegol lleol sydd ar gael fel y gallant gynnig gwasanaethau i ofalwyr di-dâl i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn ystod asesiad o anghenion gofalwyr.	Awdurdodau Lleol	Yn parhau	Roedd cynnydd yn cael ei wneud ar waith cymorth iechyd meddwl fel rhan o strategaeth Llywodraeth Cymru Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

3.11	<p>Ariannu a darparu gweithgareddau sy'n cynnig seibiant byr o ofalu a chymorth lles.</p> <p>Mae enghreifftiau cyfredol yn cynnwys sesiynau 'Amser i Fi' Gofalwyr Cymru a Hyb Lles ar-lein Gofalwyr Cymru</p>	Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat.	Yn parhau	<p>Roedd Gofalwyr Cymru yn parhau i ddarparu sesiynau cymorth "Amser i Fi" ar gyfer gofalwyr di-dâl, a oedd yn amrywio o sesiynau ar reoli straen a therapi cwsg i rai ar grefftiau a rheoli eich arian. Roedd sesiynau cymorth ar-lein a Hyb Lles, a ariennir gan Grant Llywodraeth Cymru i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy ar gael hefyd.</p> <p>Yng Ngwent, mae ymarferwyr llesiant seicolegol yn gweithio mewn meddygfeydd gan chwarae rôl i gefnogi cymunedau ethnig lleiafrifol yn ardal Casnewydd yn unswydd.</p>
------	---	---	-----------	---

## Blaenoriaeth 4: Cefnogi gofalwyr di-dâl mewn addysg ac yn y gweithle

Dylid annog cyflogwyr a lleoliadau addysg/hyfforddiant i addasu eu polisiau a'u harferion, gan roi cyfle i ofalwyr di-dâl weithio a dysgu ochr yn ochr â'u rôl ofalu.

Fel blaenoriaeth newydd ar gyfer gofalwyr di-dâl, edrychir ar y cyfleoedd sy'n codi o ymrwymadau newydd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i ddod o hyd i gyfleoedd newydd i weithio gyda'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i geisio bodloni amcanion y flaenoriaeth hon. Mae enghreifftiau o ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys y cynnig newydd ar gyfer Gwarant i Bobl Ifanc, yn ogystal â'r posibilrwydd o hawliau cyflogaeth newydd yn y DU i gyflogaeth cymwys sydd â chyfrifoldebau gofalu.

<p><b>Thema blaenoriaeth 4: Annog awdurdodau lleol i gefnogi ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth i adnabod gofalwyr ifanc</b>  <i>Mae hwn yn cysylltu â Blaenoriaeth 1 – gwerthfawrogi gofalwyr di-dâl a chodi ymwybyddiaeth o ofalwyr di-dâl</i></p>			
<p><b>Ymrwymadau'r Strategaeth</b>  Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddio'r cwricwlwm newydd – y Cwricwlwm i Gymru – gyda'i ffocws llawer cryfach ar lesiant, ac ar greu dysgwyr uchelgeisiol a galluog i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r rhystrau y mae gofalwyr ifanc yn eu hwynebu.</li> <li>Annog mwy o gysondeb wrth adnabod gofalwyr ifanc mewn lleoliadau addysg a'u cyfeirio at wasanaethau gofalwyr ifanc.</li> </ul>			
<b>Sut y byddwn yn cyflawni hyn</b>	<b>Sector/sefydliad</b>	<b>Cyfnod</b>	<b>Gweithgarwch a gwblhawyd</b>

4.1	Hyrwyddo hyrwyddwyr gofalwyr ifanc ysgol unigol a hyrwyddo arferion gorau, er enghraifft fel y nodwyd gan Adolygiad Thematig Estyn 2019.	Llywodraeth Cymru / Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru / awdurdodau lleol / y sector addysg ac ysgolion	Erbyn diwedd tymor y llywodraeth gyfredol – 2025	<p>Bwriodd nifer o awdurdodau lleol ymlaen â'u gwaith gydag ysgolion ac yn codi ymwybyddiaeth o anghenion gofalwyr ifanc gan ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc Cenedlaethol.</p> <p>Mae'r Care Collective yn parhau i gynnig y Cynllun Achredu Gofalwyr Ifanc mewn ysgolion yn ardaloedd awdurdodau lleol De-ddwyrain Cymru. Mae cynllun achredu bwrdd iechyd lleol Hywel Dda Buddsoddwyr mewn Gofalwyr hefyd yn cefnogi gofalwyr ifanc.</p> <p>Caiff gofalwyr ifanc eu hystyried mewn polisïau addysg Llywodraeth Cymru.</p>
4.2	Datblygu rhwydwaith o hyrwyddwyr ysgol ar draws rhanbarthau. Annog hyrwyddwyr i fabwysiadu dull 'ysgol gyfan'.	Llywodraeth Cymru / awdurdodau lleol / y sector addysg ac ysgolion / y trydydd sector	Erbyn diwedd tymor y llywodraeth gyfredol 2025	Gweler uchod – roedd cynnydd yn parhau i gael ei wneud ar waith trawslywodraethol.
4.3	Hyrwyddo newid diwylliannol a chodi ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc a gofalwyr ifanc sy'n oedolion ymysg gweithwyr addysg proffesiynol a'u hanghenion am gymorth a chefnogaeth, a'u cyfeirio at wasanaethau awdurdodau lleol a gwasanaethau gofalwyr a gomisiynir.	Llywodraeth Cymru / Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru / awdurdodau lleol	Parhaus	<p>Cafodd gwaith ei wneud fel rhan o brosiect y Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc cenedlaethol gan awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau'r trydydd sector a gomisiynwyd.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o'r casgliad presennol o adnoddau sydd wedi'u cynhyrchu gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a'u hariannu gan Lywodraeth Cymru, at ddefnydd arweinwyr ysgolion, llywodraethwyr ac athrawon i'w helpu i ddeall gofalwyr ifanc a gwybod pwy ydynt.</p>
4.4	Hyrwyddo'r broses o adnabod gofalwyr ifanc drwy brosiect cerdyn adnabod gofalwyr ifanc cenedlaethol a gyd-gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, yn cynnwys codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant ac adnoddau cenedlaethol a	Llywodraeth Cymru / Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru / awdurdodau lleol / y sector addysg / y	Yn parhau	<p>Cafodd ceisiadau eu derbyn a'u cymeradwyo ar gyfer awdurdodau lleol yn ystod 2022-23 fel rhan o'r prosiect Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc cenedlaethol.</p> <p>Mae gwaith hyrwyddo a hyfforddi staff addysg yn mynd rhagddo ar lefel leol, er enghraifft yng Ngorllewin Cymru mae'r Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc Cenedlaethol wedi cael ei gyflwyno ym</p>

	<p>gynhyrchir gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru.</p> <p><a href="https://carers.org/around-the-uk-our-work-in-wales/young-carers-id-card-welsh">https://carers.org/around-the-uk-our-work-in-wales/young-carers-id-card-welsh</a></p> <p>Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cerdyn mewn ysgolion a cholegau.</p>	sector cyhoeddus / y trydydd sector		<p>mhob un o'r tair ardal awdurdod lleol – Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Mae adnoddau wedi cael eu llunio gan weithio gyda gofalwyr ifanc, e.e. ffilmiau byr yn edrych ar y profiad o fod yn ofalwr ifanc yn ogystal ag adnoddau a llyfrau gyda gwybodaeth sydd â phwyslais lleol.</p> <p>Mae Gwynedd wedi defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i benodi ei Swyddog Gofalwyr Ifanc cyntaf. Mae cysylltiad wedi cael ei wneud â phob ysgol drwy weithio gyda'i darparwr trydydd sector wedi ei gomisiynu, ac mae rhaglen drylwyr o adnoddau newydd sy'n codi ymwybyddiaeth wedi cael ei chynhyrchu a'i dosbarthu i ysgolion a gofalwyr ifanc.</p>
4.5	<p>Defnyddio cynlluniau a mecanweithiau cenedlaethol fel y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid i helpu i adnabod gofalwyr ifanc fel dysgwyr agored i niwed ac mewn perygl o fod yn NEET (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).</p>	Llywodraeth Cymru / awdurdodau lleol / y sector addysg / sector cyhoeddus a'r trydydd sector / ysgolion.	Parhaus	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu canllawiau ac adnoddau'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, e.e. Llawlyfr penodol.</p> <p><a href="#">Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid: Llawlyfr [HTML]   LLYW.CYMRU</a></p> <p>Mae'r Fframwaith wedi'i gysylltu'n agos â chymorth cyflogadwyedd i bobl ifanc a gwaith gyda Gyrfa Cymru, yn ogystal â Gwarant Llywodraeth Cymru i Bobl Ifanc.</p>
<b>Ystyriaethau ychwanegol</b>				
4.6	<p><u>Cyfleoedd addysg bellach ac addysg uwch i gefnogi mynediad gofalwyr ifanc a gofalwyr ifanc sy'n oedolion at ddysgu</u></p> <p>Fel rhan o'r diwygiadau addysg a hyfforddiant ôl-16 ehangach, annog y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd arfaethedig i ddarparu arweiniad a chymorth i ddarparwyr ôl-16.</p>	Llywodraeth Cymru	Erbyn diwedd 2025	<p>Bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn goruchwyllo'r gwaith o gynllunio strategol ar gyfer cyflawni addysgol a sgiliau ym mhob rhan o addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, gan gynnwys cyllido, contractio, ansawdd a monitro ariannol. Bydd hyn yn sicrhau bod darpariaeth ôl-16 yn fwy cyson ac yn fwy effeithlon.</p> <p><a href="#">Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil   LLYW.CYMRU</a></p> <p>Bwrir ymlaen â'r cam gweithredu hwn o 2023.</p>
4.7	<p><u>Cyfleoedd addysg bellach ac addysg uwch i gefnogi mynediad gofalwyr ifanc a gofalwyr ifanc sy'n oedolion at ddysgu</u></p>	Llywodraeth Cymru / Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru / y	Yn parhau	<p>Cynhaliwyd trafodaethau yn adrannau perthnasol o Lywodraeth Cymru i adolygu adnoddau presennol ac i ddatblygu canllawiau a</p>



	Defnyddio adnoddau presennol i helpu i hyrwyddo adnabod gofalwyr gan gyrff a darparwyr addysg, a nodi anghenion ymhlith gweithwyr proffesiynol am ddeunyddiau gwybodaeth / adnoddau neu hyfforddiant ar-lein newydd.	trydydd sector / y sector addysg – AB ac AU		gwybodaeth newydd ar ffurf ar-lein a phrint, ar y cyd â defnyddwyr terfynol yr adnoddau.
4.8	<p><u>Cyfleoedd addysg bellach ac addysg uwch i gefnogi mynediad gofalwyr ifanc a gofalwyr ifanc sy'n oedolion at ddysgu</u></p> <p>Hyrwyddo mecanweithiau cymorth ariannol Cymru i fyfyrwyr ac ymwybyddiaeth o gynlluniau cymorth, yn cynnwys benthyciadau myfyrwyr, a chymorth fel bwrsariau prifysgol i ofalwyr di-dâl.</p>	Llywodraeth Cymru / y sector addysg	Yn parhau	<p>Mae canllawiau diweddaraf wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru i bob canolfan ddysgu yng Nghymru am y Lwfans Cynhalieth Addysg a'r Grant Dysgu Addysg Bellach. Y prif nod yw sicrhau nad yw gofalwyr sy'n oedolion ifanc o dan anfantais wrth hawlio neu gael y Lwfans Cynhalieth Addysg neu'r grant dysgu.</p> <p><a href="https://www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk/y-marferwyr/hysbysiadau-gwybodaeth/">https://www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk/y-marferwyr/hysbysiadau-gwybodaeth/</a></p>
4.9	<p><u>Hyrwyddo cyfleoedd addysg a hyfforddiant a dysgu seiliedig ar waith i bob grŵp oedran o ofalwyr di-dâl (yn cynnwys cyfleoedd mynediad agored, addysg bellach ac uwch a datblygiad proffesiynol)</u></p> <p>Gweithio gyda chyrrff cenedlaethol cynrychioliadol yn cynnwys CCAUC, Colegau Cymru a'r Brifysgol Agored a phrifysgolion Cymru i annog gofalwyr o bob oedran i fanteisio ar gyrsiau datblygu sgiliau / cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol.</p> <p>Annog sefydliadau i benodi hyrwyddwr gofalwyr, a'u cefnogi yn eu rôl drwy adnoddau a hyfforddiant cyfredol ac arfaethedig</p>	Llywodraeth Cymru / CCAUC a'i gorff olynol / y sector addysg / prifysgolion / darparwyr hyfforddiant / cyflogwyr / y trydydd sector	Erbyn diwedd 2022 a pharhaus	<p>Bydd gwaith yn dechrau yn 2023.</p> <p>Yn ardal bwrdd partneriaeth rhanbarthol Gwent mae gwaith yn mynd rhagddo gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog i helpu gofalwyr di-dâl rhwng 18 a 30 oed i fanteisio ar gyfleoedd i gael tystysgrif broffesiynol Google IT ac i annog gofalwyr a'u cyfeirio at gyfleoedd gwirfoddoli er mwyn nodi a gwella sgiliau gofalwyr, a rhoi iddynt yr hyder i chwilio am gyfleoedd gwaith a datblygu eu CV.</p>

**Thema blaenoriaeth 4: Gweithio gyda chyflogwyr a'u cyrff cynrychioliadol i hyrwyddo gweithleoedd sy'n gyfeillgar i ofalwyr di-dâl**

**Ymrwymiadau'r Strategaeth**

Byddwn yn:

- Helpu cyflogwyr i addasu a gweithredu polisi sy'n seiliedig ar y diffiniad o Waith Teg a'i nodweddion.
- Cysoni'r gwaith hwn â'n hymrwymiad i'r diffiniad o Waith Teg a'i nodweddion a bennwyd gan y Comisiwn Gwaith Teg, ac yn ceisio darparu cymorth gwell i'r nifer cynyddol o weithwyr hŷn, gofalwyr di-dâl, a gofalwyr ifanc sy'n oedolion.

Sut y byddwn yn cyflawni hyn		Sector/sefydliad	Cyfnod	Gweithgarwch a gwblhawyd
4.10	Defnyddio mecanweithiau partneriaeth gymdeithasol Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â'r cyhoedd, y sector preifat a'r trydydd sector, yn cynnwys undebau llafur, i wella ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad wrth gefnogi gofalwyr di-dâl yn y gweithle.	Llywodraeth Cymru / y sector cyhoeddus / preifat a'r trydydd sector	Erbyn diwedd 2022 ac yn yr hirdymor	Mae gwaith wedi dechrau i sefydlu a meithrin cysylltiadau ag undebau llafur ac i nodi'r effaith sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth Partneriaeth Gymdeithasol newydd.  Roedd Gofalwyr Cymru yn gweithio gyda TUC Cymru i lunio canllawiau i gyflogwyr.
4.11	Archwilio cyfleoedd a gyflwynir gan ddeddfwriaeth y dyfodol a deddfwriaeth newydd, er enghraifft cynigion gan Lywodraeth y DU ar gyfer arferion Gweithio Hyblyg newydd.	Llywodraeth Cymru / y sector cyhoeddus / preifat a'r trydydd sector	Dibynol ar gamau gweithredu a / neu ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU	Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag adrannau Llywodraeth y DU wrth i'r Bil Aelod Preifat (Hawliau Cyflogaeth Gweithio'n Hyblyg) a gyflwynwyd gan Yasmin Qureshi, AS, wneud ei ffordd drwy Senedd y DU.  Cynhaliwyd ail ddarlleniad y Bil Aelod Preifat ac mae wedi symud ymlaen at y cyfnod pwyllgor.  <a href="https://www.parliament.uk/bills/2022-23/bill-100">Bil Cysylltiadau Cyflogaeth (Gweithio Hyblyg) 2022-23 - Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (parliament.uk)</a>

**Ymrwymiadau'r Strategaeth**

Byddwn yn:

- Sicrhau bod cyflogwyr di-dâl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant yn gallu cael gafael ar y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth cywir i ddatblygu'r sgiliau i gael gwaith addas, p'un a ydynt yn ailymuno â'r gweithlu, neu'n cael swydd am y tro cyntaf.

Sut y byddwn yn cyflawni hyn		Sector/sefydliad	Cyfnod	Gweithgarwch a gwblhawyd
------------------------------	--	------------------	--------	--------------------------

4.12	Gweithio gyda sefydliadau yn cynnwys Gyrfa Cymru (Cymru'n Gweithio), Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU, a'r trydydd sector, i hyrwyddo mynediad pob gofalwr 16 oed a hŷn at gyfleoedd cyflogaeth.	Llywodraeth Cymru / Adrannau Llywodraeth y DU / y sector cyhoeddus / y trydydd sector / y sector preifat	Erbyn diwedd 2022 a pharhaus	Datblygodd Gofalwyr Cymru (gan ddefnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru) gyfres o adnoddau i ofalwyr sydd am ddechre i'r gweithle.
4.13	Archwilio'r cyfleoedd a gyflwynir ar gyfer gofalwyr ifanc sy'n oedolion yn ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu newydd ar gyfer Gwarant Person Ifanc, a fydd yn ceisio darparu cynnig o le mewn addysg neu hyfforddiant i bawb o dan 25 oed ledled Cymru, neu gymorth i gael gwaith neu i fod yn hunangyflogedig.	Llywodraeth Cymru / y sector cyhoeddus / y sector preifat / y trydydd sector	Erbyn diwedd 2022 a pharhaus	Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn cael eu hystyried yng ngweithgarwch a rhaglenni cymorth y Warrant i Bobl Ifanc. Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig â rhaglenni sgiliau, hyfforddiant a dysgu ehangach. <a href="#">Y Warrant i Bobl Ifanc [HTML]   LLYW.CYMRU</a>
<b>Ymrwymadau'r Strategaeth</b>				
Byddwn yn:				
<ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i weithio gyda Hwb Cyflogwyr i Ofalwyr Cymru, sy'n helpu sefydliadau yng Nghymru i gefnogi staff sydd â chyfrifoldebau gofalu.</li> </ul>				
<b>Sut y byddwn yn cyflawni hyn</b>		<b>Sector/sefydliad</b>	<b>Cyfnod</b>	<b>Gweithgarwch a gwblhawyd</b>
4.14	Cynyddu hygyrchedd ac aelodaeth y cynllun Cyflogwyr i Ofalwyr, yn cynnwys codi ymwybyddiaeth ymhlith gofalwyr sy'n gweithio a'u rheolwyr fel eu bod yn gwybod pa gymorth sydd ar gael o fewn sefydliadau.	Gofalwyr Cymru / Llywodraeth Cymru	Yn parhau	Mae Gofalwyr Cymru yn parhau i hyrwyddo ac i ddatblygu ei gynllun Cyflogwyr i Ofalwyr yng Nghymru, a'r meincnod Carer Confident.
4.15	Annog pob corff cyhoeddus i gael polisi gofalwyr, datblygu datganiad lles, a chynnig cynllun Pasbort Gofalwyr i'w gweithwyr.	Gofalwyr Cymru / Llywodraeth Cymru	Erbyn diwedd 2022 a pharhaus	Gweler 4.14. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus i nodi cyfleoedd i annog rhagor o bobl i fanteisio ar y rheini.

4.16	Annog cyflogwyr y sector cyhoeddus ac eraill i nodi aelod arweiniol o staff i hyrwyddo mentrau gofalwyr di-dâl a chodi ymwybyddiaeth o effaith cyfrifoldebau gofalu ar weithwyr.	Gofalwyr Cymru / Llywodraeth Cymru	Erbyn diwedd 2022 a pharhaus	<p>Mae Gofalwyr Cymru yn parhau i nodi a hyfforddi hyrwyddwyr gweithle ac i roi adnoddau iddynt er mwyn cefnogi gofalwyr di-dâl mewn gweithleoedd ledled Cymru.</p> <p>Ar lefel awdurdod lleol, er enghraifft, mae Swyddogion Iechyd a Llesiant Cyngor Sir Ceredigion yn cynnal grwpiau galw heibio i staff. Mae hefyd wedi creu Pecyn Cymorth i Ofalwyr ar gyfer busnesau a mentrau bach er mwyn codi ymwybyddiaeth o ofalwyr o safbwynt y cyflogai a'r cwsmer. Y nod yw helpu busnesau bach a chanolig i edrych ar sut y gallant gefnogi gofalwyr sy'n gweithio iddynt, neu ofalwyr sy'n defnyddio eu gwasanaethau, mewn ffordd a fyddai o les iddyn nhw ac i ofalwyr.</p>
<p><b>Ymrwymiadau'r Strategaeth</b> Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i gefnogi'r cynnig gan Lywodraeth y DU am hawl cyflogaeth newydd, sef wythnos o absenoldeb di-dâl i ofalwyr ar gyfer gweithwyr cymwys.</li> </ul>				
<b>Sut y byddwn yn cyflawni hyn</b>		<b>Sector/sefydliad</b>	<b>Cyfnod</b>	<b>Gweithgarwch a gwblhawyd</b>
4.17	Gweithio gyda'r llywodraeth ganolog i gefnogi cynigion deddfwriaethol a darparu mewnbwn o safbwynt Cymru.	Llywodraeth Cymru / Llywodraeth y DU	Erbyn diwedd tymor Llywodraeth Cymru bresennol (yn amodol ar ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU y dyfodol).	<p>Cyflwynodd Wendy Chamberlain, AS, Fil Aelod Preifat i Dŷ'r Cyffredin – sef Absenoldeb i Ofalwyr. Mae'r Bil yn cynnig wythnos o absenoldeb di-dâl i ofalwyr ar gyfer cyflogeion cymwys yn ystod unrhyw gyfnod o 12 mis.</p> <p>Cynhaliwyd ail ddarlleniad y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 21 Hydref 2022 ac mae wedi symud ymlaen at y cyfnod pwyllgor.</p> <p><a href="#">Bil Absenoldeb i Ofalwyr - Biliau Seneddol - Senedd y DU</a></p> <p>Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn cefnogi egwyddor a chynigion y Bil Aelod Preifat.</p>
4.18	Annog cyflogwyr ym mhob sector i weithredu polisiau absenoldeb gofalwyr (cysylltiadau â gweithgarwch Cyflogwyr i Ofalwyr).	Gofalwyr Cymru / Llywodraeth Cymru	Parhaus	Mae Gofalwyr Cymru yn darparu sesiynau hyfforddi i unrhyw gyflogwr/sefydliad sydd am roi mesurau hyderus o ran gofalwyr ar waith, gan gynnwys absenoldeb i ofalwyr.
<p><b>Ymrwymiadau'r Strategaeth</b> Byddwn yn:</p>				

- Cysylltu'r flaenoriaeth newydd hon â phryderon cymdeithasol ac economaidd ehangach gan gynnwys cydraddoldeb rhywiol, incwm isel ac effaith gofalu ar dlodi.

Sut y byddwn yn cyflawni hyn		Sector/sefydliad	Cyfnod	Gweithgarwch a gwblhawyd
4.19	Cefnogi gofalwyr di-waith a chyflogedig i fanteisio ar gyfleoedd i ddychwelyd i addysg neu hyfforddiant.	Llywodraeth Cymru / Gyrfa Cymru (Cymru'n Gweithio) / yr Adran Gwaith a Phensiynau / y sector addysg / y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector.	Parhaus	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu amrywiaeth o raglenni cymorth sydd ar gael drwy Cymru'n Gweithio ac sy'n cynnwys cymorth sydd â ffocws mwy pendant a chymorth arbenigol megis rhaglenni ReAct Plws a Twf Swyddi Cymru Plws. Mae modd hefyd i unigolion wneud cais am Gyfrif Dysgu Personol sy'n gallu eu helpu i fanteisio ar gyfleoedd astudio rhan amser ar gyrsiau penodol.</p> <p><a href="#">Cymru'n Gweithio   Cymru'n Gweithio (llyw.cymru)</a></p> <p>Mae Gofalwyr Cymru yn parhau i gefnogi gofalwyr di-dâl sydd am ddychwelyd i'r gweithle. Mae hyn wedi cynnwys darparu hyfforddiant, creu adnoddau ar-lein a rhoi cymorth hyfforddiant bywyd. Mae Gofalwyr Cymru yn gweithio gyda Gyrfa Cymru phartneriaid yr Adran Gwaith a Phensiynau i nodi cymorth cyflogaeth i ofalwyr.</p>
4.20	Hyrwyddo prosiect Grymuso a Llesiant Gofalwyr Cymru sy'n cynnwys cynorthwyo menywod sy'n gofalu i ddychwelyd i'r gweithle neu gamu ymlaen yn y gweithle (gweithio gyda Chwarae Teg fel partner darparu)	Gofalwyr Cymru / Llywodraeth Cymru	31 Mawrth 2023. Mae'r cynllun grant wedi ei estyn tan 2025	Gan ddefnyddio cyllid Grant Llywodraeth Cymru i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, gweithiodd Gofalwyr Cymru gyda Chwarae Teg i greu cyfres o adnoddau ar-lein i ofalwyr sydd am wneud cynnydd yn y gweithle, neu ddychwelyd i'r gweithle.
4.21	Hyrwyddo cwrs e-ddysgu achrededig Gofalwyr Cymru 'Dysgu ar gyfer Byw' ar gyfer gofalwyr di-dâl i nodi sgiliau trosglwyddadwy a enillwyd drwy ofalu; a darpariaeth ddysgu berthnasol arall.	Gofalwyr Cymru / Llywodraeth Cymru / y sector addysg	Parhaus	Roedd Gofalwyr Cymru yn parhau i hyrwyddo'r cwrs e-ddysgu 'Dysgu ar gyfer Byw', sydd wedi ei achredu gan City and Guilds.

<b>Thema blaenoriaeth 4: Hyrwyddo gwytnwch ariannol</b>			
<b>Ymrwymiadau'r Strategaeth</b>			
Byddwn yn:			
<ul style="list-style-type: none"> <li>Ystyried newidiadau pellach i'r system Budd-daliadau Lles a Nawdd Cymdeithasol ac mae Gweinidogion Cymru yn parhau i wneud sylwadau ar y newidiadau hyn ac yn gweithredu polisi i ddiogelu'r rhai sydd yn y perygl mwyaf yn ein cymunedau.</li> </ul>			
<b>Sut y byddwn yn cyflawni hyn</b>	<b>Sector/sefydliad</b>	<b>Cyfnod</b>	<b>Gweithgarwch a gwblhawyd</b>
4.22	Hyrwyddo a chynorthwyo gofalwyr i gael gafael ar amrywiaeth o fudd-daliadau lles, gwybodaeth am gymorth ariannol a gwasanaethau.	Llywodraeth Cymru / y sector cyhoeddus a'r trydydd sector	Parhaus  Gweler yr wybodaeth am gymorth ariannol Llywodraeth Cymru yn 2.6  Mae Gofalwyr Cymru wedi bod yn bartner cyflawni yn ymgyrch Llywodraeth Cymru 'Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi' i sicrhau bod mwy o gyflogwyr di-dâl yn manteisio ar amrywiaeth o fudd-daliadau lles.

